



Wrth i'r flwyddyn galendr ddod i ben a chyffro'r Nadolig lenwi'r lle, hoffem eich atgoffa am rai o ddigwyddiadau allweddol yr hanner tymor hwn ac am rai dyddiadau pwysig yn y flwyddyn newydd...

A ydych chi wedi gwyllo Aberconwy TV?

Mae ein Myfyrwyr Cyfryngau Blwyddyn Chwech wedi bod yn brysur yn cynhyrchu eitemau newydd ar gyfer sianel YouTube yr ysgol.

Cliciwch ar y cyswllt isod i wyllo'r eitem ddiweddaraf neu porwch drwy'r eitemau blaenorol...



Myfyrwyr Aberconwy yn creu cynnwrf gyda'u Perfformiad Gorau ERIOED!

Ddydd Mercher, Tachwedd 22^{ain} am 7yh roedd y llwyfan yn barod a'r goleuadau'n disgleirio pan gamodd y myfyrwyr i'r llwyfan ar gyfer eu noson agoriadol.

Roedd y gwaith caled a'r ymroddiad y tu ôl i berfformiad eleni yn amlwg. Roedd pawb, gan gynnwys y prif gymeriadau, y cymeriadau llai a'r disgyblion cynradd a ganai rai o'r caneuon, wedi ymarfer yn galed a chafwyd perfformiad a oedd yn deilwng o Broadway.

Ni phrofwyd erioed y fath gynnwrf yn Neuadd yr ysgol â'r cynnwrf a brofwyd ar ddiwedd mis Tachwedd, gyda cherddoriaeth yn llenwi'r coridorau yn ystod ymarferion, a chyffro mawr drwy'r ysgol.

Da iawn chi i bob myfyriwr ac aelod staff a gymerodd ran yn y cynhyrchiad. Roedd safon y perfformiad yn syfrdanol eleni; edrychwn ymlaen yn barod at weld perfformiad blwyddyn nesaf!



Dyddiadau allweddol i ddod:

Dydd Mawrth, Ionawr 9^{fed}: Ysgol yn agor i fyfyrwyr

Dydd Mawrth, Ionawr 23^{ain}: Noson Rieni Blwyddyn 11

Dydd Mawrth, Chwefror 6^{ed}: Noson Ddewisiadau'r Chweched Dosbarth

Dydd Gwener, Chwefror 9^{fed}: Diwrnod olaf cyn hanner tymor


Cofiwch fod dyddiadau digwyddiadau allweddol ym ymddangos ar ein gwefan ...

Gwasanaeth Carolau Nadolig Ysgol Aberconwy



Diolch i bawb a ymunodd â ni ar gyfer Gwasanaeth Carolau Nadolig Ysgol Aberconwy yn Eglwys Santes Fair yng Nghonwy Ddydd Llun, Rhagfyr 18^{fed}.

Roedd hi'n hyfryd i weld cynifer ohonoch yno a gobeithiwn eich bod wedi mwynhau gwyllo'r myfyrwyr yn perfformio ac yn canu carolau Nadolig gyda ni.





Newyddion Diweddaraf | **Newyddion Diweddaraf** | Newyddion Diweddaraf



O Ddistawrwydd Noddedig i Hanner Marathon, llwyddwyd i godi mwy na £2,500 ar gyfer Plant mewn Angen eleni!

Ddydd Gwener, Tachwedd 17^{eg}, ymunom â'r genedl i godi arian ar gyfer Plant mewn Angen 2017.

Cymerodd myfyrwyr a staff ar draws yr ysgol ran mewn amryw o weithgareddau codi arian, yn amrywio o sesiynau chwaraeon i heriau, ac o rafflau tombola i ddiwrnod dillad eich hun.

Y myfyrwyr eu hunain a fu'n gyfrifol am yr uchafbwyntiau, fodd bynnag... Cododd Joe Nicholas a Jack Owens o Flwyddyn 10 fwy na £200 drwy eillio'u pennau, cododd Caitlin Finnegan a Leah Birchall o Flwyddyn 7 fwy na £200 am deithiau cerdded noddedig, cwblhaodd Crystal Forbes o Flwyddyn 7 gamp ddringo Indy gan godi £90 a chodwyd mwy na £140 gan efeilliaid Blwyddyn 8, Jaydon Parry a Connor Parry, pan gwblhaodd Jaydon daith redeg noddedig ac aeth Conor ati i gyflawni tasgau ychwanegol.



Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran, gan godi mwy na £2,500 ar gyfer Plant mewn Angen 2017!

Llwyddiant ym maes Chwaraeon...

Da iawn Amelie Partington am ddod yn 2il am Lofneidio, ac i'w thîm am ddod yn 3ydd yn gyffredinol, yn Rownd Derfynol Cystadleuaeth Cenedlaethol Lefel 5 Artistig Merched yng Nghaerdydd!



Llongyfarchiadau i Isaac Dean am gwblhau ei 50^{fed} Park Run yng Nghonwy!

Da iawn Geneva Henson, a enillodd y fedal efydd ar gyfer Kata, yng nghystadlaethau cenedlaethol Cymru!



Llongyfarchiadau i Ceri Watson am gynrychioli Sir Conwy yng Nghystadlaethau Cenedlaethol Nofio Cymru yn Abertawe y Gaeaf hwn!

Ar ran pawb yn Ysgol Aberconwy, dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

